Newport Cathedral
Cadeirlan Casnewydd



# CANON DROS ADDOLLAD A BYWYDCYNULLELDFAOL
## (Prif Gantor-Bugail)

**MAWRTH 2024**


Faith in our Future
Diocese of Monmouth
Esgobaeth Mynwy

# CYNNWYS

Cyflwyniad.......... 3
Nodweddion allweddol y rol.......... 4
Prif Gyfrifoldebau.......... 5
Perthnasoedd Gwaith Allweddol.......... 8
Yr Ymgeisydd Delfrydol.......... 8
Proffil y Gadeirlan.......... 9
Tîm Staff a Chlerigwyr.......... 10
Llywodraethu.......... 12
Cenhadaeth a’r Cynllun Strategol.......... 13
Addoli.......... 14
Cerddoriaeth a'r Corau.......... 18
Adeilad y Gadeirlan.......... 20
Prosiectau Gofal Cymdeithasol.......... 21
Ysgolion.......... 21
Gweinidogaeth Leyg a Bywyd Cynulleidfaol.......... 22
Gadeirlan glychau.......... 23
Amser cyffrous i ymuno â'r Gadeirlan.......... 24
Diben yr Eglwys yng Nghymru.......... 25
Cartref.......... 26
Manyleb y Person.......... 27
Amodau Gwasanaeth.......... 30
Sut i Wneud Cais.......... 30
Casnewydd.......... 31
Esgobaeth Mynwy.......... 32
Yr Eglwys yng Nghymru.......... 32



# Cyflwyniad



Mae Esgob Mynwy mewn ymgynghoriad â'r Deon yn dymuno penodi Canon Preswyl gyda chyfrifoldeb am addoli a bywyd cynulleidfaol.

Mae hon yn swydd llawn amser newydd sy'n canolbwyntio'n llwyr ar fywyd a gweinidogaeth y Gadeirlan, gan gyfuno rolau traddodiadol prif gantor a bugail.

Rhagwelir y bydd y rhaniad oddeutu 40% litwrgi a 60% datblygu gofal bugeiliol, ffydd a bywyd y cynulleidfaoedd.

Mae'r swydd wedi codi yn sgil fformiwla ariannu newydd ar gyfer eglwysi cadeiriol yng Nghymru gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (tebyg i'r Comisiynwyr Eglwysig yn Lloegr). Gellir ymgymryd â'r swydd cyn gynted â phosibl trwy drafodaeth.

# Nodweddion allweddol y rôl

Mae rôl y Canon dros Addoliad a Bywyd Cynulleidfaol yn cyfuno rolau traddodiadol Pen Gantor a Bugail. Nid ydym wedi defnyddio'r teitlau hyn i osgoi cyfyngu ar sut gwelir y rolau'n hyn – mae addoliad yn mynd y tu hwnt i litwrgi ffurfiol ac mae bywyd cynulleidfaol yn cynnwys gofal bugeiliol a ffydd a thwf cymunedol.

Rydym yn chwilio am rywun a fydd yn meddwl yn ddychmygus yn y ddwy agwedd, gan annog aelodau'r gynulleidfa i ymarfer eu gweinidogaeth a chynnig eu sgiliau a'u galwedigaeth. Bydd hyn yn gofyn am ddirnadaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth fel ei bod yn cydymffurfio â Pholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru. Mae'n ofynnol i bawb yn y Gadeirlan gadw at Bolisïau Diogelu'r Eglwys yng Nghymru a bod yn gyfredol o ran hyfforddiant a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel y bo'n briodol.

Mae gwybodaeth eang o gerddoriaeth eglwysig yn hanfodol ynghyd â'r gallu i ganu mewn tiwn a dal traw wrth ganu gyda chôr yr Eglwys Gadeiriol.

Nid eglwys blwyf yw'r Gadeirlan, ond mae ganddi gymuned go iawn sy'n ganolog iddi. Rydym yn chwilio am gynhesrwydd dynol, agosatrwydd, rhywun a fydd yn ymarferol ac nid rhywun sy'n cadw hyd braich. Bydd y rôl yn gofyn am berson trefnus iawn, sy'n gwybod sut i gynllunio ei waith a rheoli ei ddyddiadur i sicrhau nad yw pethau pwysig yn cael eu hanwybyddu ac mae hynny'n cynnwys ei lesiant ei hun. Mae synnwyr digrifwch da yn hanfodol.

Y Canon fydd cynrychiolydd y clerigwyr ar Bwyllgor Diogelu'r Gadeirlan.

Mae'n angen allweddol bod demograffeg y Gadeirlan yn ehangu.








# Prif Gyfrifoldebau

## Cyffredinol

- Ymrwymo i fywyd addoli beunyddiol yr Eglwys Gadeiriol, mynychu Boreol Weddi a Hwyrol Weddi a'r Cymun Bendigaid dyddiol ar y dyddiau hynny pan nad yw ar ddyletswydd mewn mannau eraill neu'n gorffwys.

- Cymryd rhan mewn arwain a phregethu yn addoliad rheolaidd yr Eglwys Gadeiriol, yn ôl y rota.

- Mynychu cyfarfodydd wythnosol o glerigwyr, y tîm rheoli a chyfarfodydd dyddiadur.

- Bod yn aelod llawn o Gabidwl y Gadeirlan – Corff Llywodraethu'r Gadeirlan, gan arfer cyfrifoldebau ymddiriedolwr. Gweithio'n gydweithredol, ond hefyd bod yn ddigon dewr i siarad yn rhydd mewn ffordd briodol i sicrhau penderfyniadau corfforaethol cadarn.

- Ymddwyn yn broffesiynol a thrin pawb â pharch ac urddas, yn unol â Chanllawiau Gweinidogol Proffesiynol ar gyfer clerigwyr yn yr Eglwys yng Nghymru a'r Siarter Urddas.

- Cynrychioli'r clerigwyr ar y Pwyllgor Diogelu a rhannu'r cyfrifoldeb dros sicrhau diwylliant cryf o Ddiogelu yn yr Eglwys Gadeiriol.

- Bod yn hunanymwybodol, gofalu am eich anghenion hyfforddiant eich hun a neilltuo amser ar gyfer beth bynnag sy'n eich gwneud yn hapus.



## Addoli

- Gweithredu fel arweinydd strategol yr Eglwys Gadeiriol ar faterion sy'n ymwneud ag addoli a litwrgi, gan gysylltu'n agos â'r Deon a phan fo'n briodol, â swyddfa'r Esgob a grwpiau sy'n ceisio gwasanaethau yn yr Eglwys Gadeiriol.

- Bod yn rheolwr llinell y Cyfarwyddwr Cerdd a gweithio'n agos gyda'r adran gerddoriaeth.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cerdd i sicrhau gofal bugeiliol pawb yn yr adran gerddoriaeth, gan gynnwys datblygu aelodau'r côr.

- Paratoi rotas clerigwyr ar gyfer arwain gwasanaeth y Cymun Bendigaid, pregethu ac arwain y swyddogaethau dyddiol, cysylltu â phawb cysylltiedig, gan gydnabod yr hawliau o dan Gyfansoddiad yr Esgob a'r Deon. Trefnu'r rota ar gyfer cantorion ar ymweliad.

- Bod yn gantor ar gyfer y Gosber ac ar adegau eraill pan fo angen.

- Goruchwylio'r gwaith o gynhyrchu'r llyfrynnau gwasanaeth wythnosol a'r daflen hysbysiadau, litwrgïau ar gyfer gwasanaethau arbennig gyda chreadigrwydd, gan gynnwys cysylltu â sefydliadau allanol pan fo angen i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu ethos ac arddull tŷ'rGadeirlan.

- Paratoi a chynnal cylchoedd gweddi a rhestrau gweddi'r Gadeirlan.

- Goruchwylio tîm y sacristi, y gweision allor ynghyd â'r Wardeniaid, a'r stiwardiaid. Sicrhau hyfforddiant ac arweiniad.

- Bod yn gyfrifol am gynnal cofrestrau'r Gadeirlan.

- Arwain ar ddatblygiad y cynllun litwrgaidd ar gyfer y Gadeirlan.

- Ymgysylltu â Rhwydwaith Prif Gantorion Eglwysi Cadeiriol, yng Nghymru ac yn Lloegr.

- Datblygu ffyrdd o addoli newydd a chreadigol, ehangu'r ddarpariaeth litwrgaidd bresennol, tebyg i rai sy'n cael eu mabwysiadu gan Eglwysi Cadeiriol ledled y DU – Lle Sanctaidd, arddull 'Trosgynoldeb'.

## Bywyd Cynulleidfaol

- Bod yn arweinydd ar gyfer gofal bugeiliol, cymun yn y cartref a swyddogaethau bugeiliol. Sicrhau y cedwir at y gofynion cyfreithiol ar gyfer priodasau.
- I fod yn brif gyswllt â’r Pwyllgor Cynulleidfaol.
- Paratoi ymgeiswyr ar gyfer bedydd a chonffyrmasiwn, gan gynllunio'r sesiynau a'r ymarferion.
- Paratoi unrhyw blant sy'n newydd i'r Gadeirlan, gan gynnwys aelodau’r Côr, i dderbyn cymun pan fyddant o oedran y mae eu rhieni'n teimlo sy'n briodol iddyn nhw.
- Datblygu bywyd a ffydd y cynulleidfaoedd – gan gynnwys grwpiau a rhaglenni astudio, timau a gofal bugeiliol.
- Meithrin perthynas gydag ysgolion a thîm addysg yr esgobaeth ar gyfer ymweliadau ac addoliad (hyd at Gyfnod Allweddol 4).
- Goruchwylio gweinidogaeth yr Eglwys Gadeiriol ar gyfer plant a phobl ifanc.







## Perthnasoedd Gwaith Allweddol

- Y Deon
- Y clerigwyr eraill
- Wardeniaid y Gadeirlan
- Y Prif Swyddog Gweithredu a Gweinyddwr a Chydlynydd Digwyddiadau
- Cyfarwyddwr Cerdd a’r Adran Gerddoriaeth
- Gwirfoddolwyr
- Y Cynulleidfaoedd

Mae'r Canon ar gyfer Addoliad a Bywyd Cynulleidfaol yn adrodd i'r Deon.

## Yr Ymgeisydd Delfrydol

Mae'r swydd hon yn gofyn am berson sydd â meddwl cenhadol, yn agored, perthynol a dymunol, sy’n chwaraewr tîm gyda llygad craff am fanylion. Rhywun sy'n gallu meddwl y tu hwnt i'r sefydledig, wrth weithio ynddo. Mae angen iddo fod yn litwrgïwr creadigol. Rydym yn chwilio am offeiriad sy'n ymhyfrydu yn y gwaith bugeiliol a gweithio gyda phobl o bob oed i'w gweld yn tyfu mewn ffydd ac fel pobl. Mae hon yn rôl ymarferol.

Nid oes rhaid bod yn siaradwr Cymraeg, ond mae'n bwysig cael dealltwriaeth o'r diwylliant Cymreig arbennig ac uniaethu ag ef. Defnyddir rhai ymadroddion Cymraeg litwrgaidd a rhoddir cymorth i unrhyw un sy'n anghyfarwydd â'r rhain. Oherwydd cymhlethdod y rôl, mae'r ymgeisydd llwyddiannus yn debygol o fod wedi gwasanaethu ar lefel beriglоriaeth am o leiaf 5 mlynedd.

Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bawb sy'n teimlo eu bod yn bodloni gofynion y rôl. Bydd y penodiad yn cael ei wneud ar sail teilyngdod.




# Proffil y Gadeirlan

Cadeirlan Casnewydd yw sedd Esgob Mynwy (Y Gwir Barchedig Cherry Vann) a Mam Eglwys ei Hesgobaeth. Mae'n un o chwe chadeirlan yr Eglwys yng Nghymru, aelod ymreolaethol o'r Cymundeb Anglicanaidd, a ddatgysylltwyd oddi wrth Eglwys Loegr ym 1920. Mae'r Gadeirlan, serch hynny, yn aelod cyswllt o Gymdeithas Eglwysi Cadeiriol Lloegr ac yn elwa ar y partneriaethau hyn. Wedi'i sefydlu fel tŷ gweddi gan Sant Gwynllyw yn y bumed ganrif, mae gan y Gadeirlan wreiddiau ysbrydol dwfn ac mae wedi bod yn fan sanctaidd ers dros bymtheg can mlynedd. Mae rhan hynaf yr adeilad presennol yn dyddio o'r 11eg ganrif gydag olion o adeileddau cynharach. Ymestynnwyd y Rhan Ddwyreiniol yn y 1960au. Mae'n gymysgedd o arddulliau ond gyda swyn arbennig. Daeth yn gadeirlan lawn ym 1949, ar ôl bod yn gadeirlan dros dro o 1930. Mae'n eithaf bach, sy'n cynnig diddosrwydd ac amlbwrpasedd. Ceir cadeiriau yng nghorff y Gadeirlan ac mae'r allor yn symudol, sy'n cynnig hyblygrwydd sylweddol.

Heddiw mae Cadeirlan Casnewydd yn dŷ gweddi ac addoliad bywiog, sy'n cynnig croeso agored a chynhwysol i bawb, ac sy'n estyn allan mewn gwasanaeth ffyddlon a chariadus. Mae gan y celfyddydau le canolog yn ei fywyd ac mae'n gartref i lawer o gyngherddau, arddangosfeydd a digwyddiadau. Mae hefyd yn frwd dros gyfiawnder cymdeithasol a gofal i'r rhai mewn angen. Nid yw hwn yn amgylchedd aruchel ond mae wedi amsugno'r diwylliant lleol ac wedi ymrwymo i ddycnwch bywyd y ddinas, yn ogystal â thirweddau ôl-ddiwydiannol Cymoedd Gwent a chymdogaeth wledig Sir Fynwy. Mae'r Fforwm ar gyfer Ysbrydolrwydd Trefol a ddatblygwyd yn ddiweddar yn adlewyrchu amrywiaeth a hanfodion y cyd-destun lleol, gan geisio bod yn bresenoldeb trawsnewidiol.








# Tîm Staff a Chlerigwyr

Cafodd y Deon, y Tra Pharchedig Ian Black, ei sefydlu yn 2021.

Mae canon preswyl arall, y Canon Andrew Lightbown, a benodwyd yn 2022. Mae ei rôl yn cael ei newid i ganolbwyntio ar genhadaeth y Gadeirlan, gyda 40% yn fewnol i'r Gadeirlan a 60% yn adlewyrchu gwaith cenhadu allanol y Gadeirlan yn y ddinas.


Mae yna hefyd dri offeiriad sydd wedi ymddeol sy'n cymryd rhan weithredol yng ngweinidogaeth y Gadeirlan. Mae clerigwyr eraill yn cefnogi'r bywyd addoli.

Mae gan y Gadeirlan dîm staff bach.

- Ceir Prif Swyddog Gweithredu llawn amser, Phae Cole.
- Gweinyddwr rhan-amser a chydlynydd digwyddiadau, Luise Bannister.
- A garddwr a glanhawr cyflogedig, Dan Walters.

Mae dau wirfoddolwr ymroddedig y sacristi yn helpu i baratoi ar gyfer gwasanaethau a gofalu am y llestri arian, llieiniau a chyflenwadau'r sacristi.

Mae'r Gadeirlan yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr er mwyn gweithredu ac mae angen gwneud mwy o waith i ddenu gwirfoddolwyr. Nid yw'n gallu cynnig cymorth gweinyddol ac mae disgwyl i glerigwyr ofalu am eu gweinyddiaeth a'u gohebiaeth eu hunain.




# Tîm Staff a Chlerigwyr

Mae'r tîm cerddoriaeth yn cynnwys,

- Dr Emma Gibbins, sydd wedi bod yn gyfarwyddwr cerdd ers 2015.
- Jeremy Blasby, sydd wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyswllt Cerdd ers 2010 ac sy'n organydd i bob pwrpas.
- Yn diwtor gwirfoddol aelodau'r côr.

Dan arweiniad Dr Gibbins maent yn pennu'r rhestri cerddoriaeth a chyfarwyddo'r côr. Bydd yn bwysig i'r Canon dros Addoliad a Bywyd Cynulleidfaol fod yn rhan o'r grŵp hwn. Bydd ef/hi yn rheoli'r Cyfarwyddwr Cerdd, sydd yn ei dro yn rheoli'r Cyfarwyddwr Cyswllt Cerdd.

Mae nifer o glerigwyr esgobaethol ynghyd ag aelodau'r côr  ac oedolion yn y côr yn cynorthwyo gyda'r canu ar gyfer y Gosber.





# Llywodraethu

Mae'r Gadeirlan yn cael ei llywodraethu gan Gabidwl y Gadeirlan ac mae popeth sy'n digwydd yn y pen draw yn atebol iddo. Daeth yn Sefydliad Corfforedig Elusennol cofrestredig, o dan Gyfansoddiad newydd, yn 2023. Y Deon yw cadeirydd y Cabidwl ac mae ganddo rôl allweddol i sicrhau bod y Cabidwl yn dilyn Cyfansoddiad y Gadeirlan. Caiff aelodau lleyg y Cabidwl eu penodi gan yr Esgob ar y cyd â'r Deon yn seiliedig ar y sgiliau a'r arbenigedd sydd ganddynt i sicrhau bod y Cabidwl yn gallu gwneud penderfyniadau cadarn ac arfer llywodraethu effeithiol.

Diddymwyd y Cyngor Plwyf Eglwysig gyda diddymiad y Plwyf yn 2021 ac mae'r Gadeirlan y tu allan i gynllun yr Ardal Weinidogaeth yn yr Esgobaeth, er ei bod yn chwarae rhan lawn ym mywyd a chyfeiriad strategol yr esgobaeth. Y rhesymeg dros hyn yw bod gan y Gadeirlan, fel Mam Eglwys yr Esgobaeth, 'ardal weinidogaeth' fwy i'w gwasanaethu. Mae Pwyllgor Cynulleidfaol i sicrhau bod lleisiau'r cynulleidfaoedd addoli yn cael eu clywed. Y Canon newydd fydd y prif gyswllt ar gyfer y grŵp hwn a bydd yn gweld bod hwn yn gorff pwysig i weithio gydag ef. Etholir dau Warden y Gadeirlan yn uniongyrchol yn y Cyfarfod Cynulleidfaol Blynyddol ac maent yn aelodau ex officio o'r Cabidwl a'r Pwyllgor Cynulleidfaol.

Mae'r Canonau Preswyl yn aelodau allweddol o'r tîm rheoli ynghyd â'r Deon, Wardeniaid y Gadeirlan, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Cerdd. Mae cyfarfod dyddiadur yn sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cydlynu a'u monitro. Mae'r grŵp hwn yn cefnogi'r Gweinyddwr a'r Cydlynydd Digwyddiadau yn ei gwaith.

Mae pob agwedd ar lywodraethu a gweithdrefnau'r Gadeirlan wedi eu hasesu ac mae gwaith yn digwydd i sicrhau bod y rhain yn unol â'r cyfansoddiad newydd a gofynion elusennol. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredu gyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â diffygion.

# Cenhadaeth a’r Cynllun Strategol

Mae’r Gadeirlan wedi bod yn eglwys blwyf hanesyddol i Gasnewydd ac o'r herwydd mae'n dal i gael ei gweld fel yr eglwys ddinesig. Mae llawer, gan gynnwys y rhai sy'n perthyn i enwadau a chrefyddau Cristnogol eraill, yn edrych tuag at y Gadeirlan am arweinyddiaeth ac yn ei gweld fel presenoldeb Cristnogol sylweddol yn y ddinas. Er iddi gael ei hail-frandio yn 'Gadeirlan Casnewydd' sawl blwyddyn yn ôl, fe'i hadnabyddir yn lleol yn syml fel 'Sant Gwynllyw'.

Mae cenhadaeth yr Eglwys Gadeiriol wedi'i halinio â phum cangen gweledigaeth yr Esgobaeth, gan ychwanegu dau yn fwy penodol i'r Gadeirlan:

- Gweddi ac Addoliad
- Cerddoriaeth
- Disgyblaeth
- Stiwardiaeth
- Amgylchedd
- Cyfiawnder Cymdeithasol
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae dail ychwanegol tyfu'n gyson o'r canghennau hyn. Maent yn cyd-fynd â phum nod cenhadaeth y Cymundeb Anglicanaidd. Angen amlwg yw tyfu demograffeg iau ym mhob agwedd ar fywyd y Gadeirlan, gan drysori a pharhau i annog y gymuned sefydledig.



# Addoli

Addoliad yw curiad calon y Gadeirlan.

Mae'r diwrnod yn dechrau gyda Boreol Weddi am 8.00am sy’n cael ei ddilyn ar unwaith gan y Cymun Bendigaid.

Mae'r clerigwyr preswyl yn arwain yn eu tro, yn ôl y rota, ac mae'r esgob yn arwain yn rheolaidd yn y Cymun Bendigaid ar fore Dydd Gwener. Disgwylir i'r tîm clerigwyr ei gwneud yn flaenoriaeth i fynychu'r gwasanaethau gweddïo dyddiol, gan eithrio diwrnodau i ffwrdd a dyletswyddau eraill. Mae’r Hwyrol Weddi am 5.00pm.

Mae'r gwasanaethau gweddïo yn dilyn Gweddi Ddyddiol Addoliad Cyffredin, a'r llithiadur yw'r fersiwn Anglicanaidd Gymraeg o'r Llithiadur Cyffredin Diwygiedig. Defnyddir llithiadur amgen y gwasanaeth gweddïo dyddiol ar ddydd Mercher pan fydd y côr yn canu’r Gosber Corawl yn ystod y tymor am 6.30pm yn lle’r Hwyrol Weddi (yn hwyrach oherwydd ymrwymiadau gwaith yr oedolion yn y côr). Mae'r gwasanaethau gweddïo dyddiol ar ddydd Sadwrn wedi'u strwythuro'n fwy anffurfiol.

Bob dydd gweddïwn dros yr Esgob a'r Esgobaeth, cadeirlannau eraill Cymru a'n Hesgobaeth Gyswllt, Highveld yn Ne Affrica.

Mae cynulleidfa reolaidd yn y gwasanaethau gweddïo dyddiol ynghyd ag ymwelwyr achlysurol. Ar ddydd Iau mae'r Cymun Bendigaid am 10.30am.

Mae’r litwrgi Ewcaristig yn bennaf yn dilyn defod Iaith Gyfoes 2004 ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru.





Esgob a Deon
yn Eglwys Gadeiriol cyswllt
yn Ne Affrica
Tachwedd 2023

Ar Ddydd Sul, y patrwm yw;

- 8.00am Cymun Bendigaid (Iaith Draddodiadol – defod yr Eglwys yng Nghymru 1984)
- 10.30am Cymun Bendigaid y Gadeirlan (Iaith Gyfoes defod yr Eglwys yng Nghymru 2004)
- 4.00pm Gosber Corawl (Llyfr Gweddi).


Cynhelir bedyddiadau am 12.30pm. Mae symud Gosber Corawl i 4.00pm wedi agor lle yn ddiweddarach yn y dydd er mwyn i arddull wahanol o addoliad ddod i'r amlwg.


Yn ystod yr Adfent mae hyn wedi cynnwys perfformiad litwrgaidd o Gantata gan Bach ar y cyd â'r gerddorfa breswyl.
Yn ystod gwyliau'r côr, pan nad oes côr ar ymweliad, mae gwasanaethau thematig wedi disodli’r Gosber, sydd wedi profi'n boblogaidd.


Mae cyfle i ddatblygu gweithredoedd addoli newydd a chreadigol, ehangu'r ddarpariaeth litwrgaidd bresennol, sy’n debyg i rai sy'n cael eu mabwysiadu gan Gadeirlannau ledled y DU – Lle Sanctaidd, arddull ‘Trosgynoldeb'’ – ein gobaith yw y bydd y Canon dros Addoliad a Bywyd Cynulleidfaol yn cael ei ddenu a'i gyffroi gan y posibilrwydd hwn.


Mae'r litwrgi wedi ei ail-fframio i ymgorffori mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a chynyddu ei gwelededd. Cynhyrchir llyfryn gwasanaeth ar wahân bob wythnos ar gyfer prif Gymun Bendigaid y Gadeirlan sy'n cynnwys y litwrgi, emynau a hysbysiadau. Mae hyn er mwyn lleihau nifer y darnau o bapur a llyfrau a roddir i’r rhai sy'n mynychu a'i gwneud yn haws i'r rhai sy'n anghyfarwydd â'r litwrgi. Felly nid yw'r Gadeirlan ynghlwm wrth lyfr emynau penodol, er bod y testunau wedi'u safoni, pan fo'n berthnasol, i Hymns Ancient and Modern 2013 ar gyfer iaith fwy cynhwysol.

Mae yna arddull tŷ ar gyfer trefn gwasanaethau. Mae llyfrynnau tymhorol wedi'u cynhyrchu ar gyfer Cymun Bendigaid canol wythnos.














Adeg y Nadolig mae'r Ŵyl Naw Llith a Charol traddodiadol wedi cyrraedd capasiti. Cyflwynwyd gwasanaeth anffurfiol ychwanegol o garolau a darlleniadau yn 2023, a alwyd yn fuan yn Wasanaeth Siwmper y Nadolig: siwmperi Nadoligaidd, hetiau Siôn Corn a chanu mawr.

Mae gwasanaethau arbennig eraill ar gael drwy gydol y flwyddyn.

Dim ond trwy Drwydded Arbennig a roddir gan Archesgob Caergaint drwy Swyddfa'r Gyfadran yn San Steffan y gellir cynnal priodasau. Mae meini prawf y cytunwyd arnynt, wedi'u cyhoeddi ar wefan y Gadeirlan.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn eglwys gynhwysol. Mae'r Gadeirlan yn croesawu bendithio partneriaethau o'r un rhyw, sydd wedi'u cynnal yn y Gadeirlan, yn unol ag arfer yr Eglwys yng Nghymru.




Adeg y Nadolig mae'r Ŵyl Naw Llith a Charol traddodiadol wedi cyrraedd capasiti. Cyflwynwyd gwasanaeth anffurfiol ychwanegol o garolau a darlleniadau yn 2023, a alwyd yn fuan yn Wasanaeth Siwmper y Nadolig: siwmperi Nadoligaidd, hetiau Siôn Corn a chanu mawr.

Mae gwasanaethau arbennig eraill ar gael drwy gydol y flwyddyn.

Dim ond trwy Drwydded Arbennig a roddir gan Archesgob Caergaint drwy Swyddfa'r Gyfadran yn San Steffan y gellir cynnal priodasau. Mae meini prawf y cytunwyd arnynt, wedi'u cyhoeddi ar wefan y Gadeirlan.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn eglwys gynhwysol. Mae'r Gadeirlan yn croesawu bendithio partneriaethau o'r un rhyw, sydd wedi'u cynnal yn y Gadeirlan, yn unol ag arfer yr Eglwys yng Nghymru.

# Cerddoriaeth a'r Corau

Mae cerddoriaeth wrth wraidd yr addoliad gydag adrannau bechgyn a merched ar wahân yn canu ochr yn ochr ag oedolion yn y côr.

Nid oes gan y Gadeirlan ysgol gôr; daw aelodau'r côr o 17 ysgol leol, llawer ohonynt heb ymwneud â phethau eglwysig a heb wybodaeth flaenorol am Gristnogaeth.

Mae'r rhes ôl yn cynnwys oedolion a chyn aelodau o'r côr a phob un yn derbyn cydnabyddiaeth fel 'diolch' am eu hymrwymiad.

Mae cerddorfa breswyl, Sinffonia Sant Gwynllyw, ensemble lled-broffesiynol o gerddorion talentog.

Y côr yw'r gweithgaredd ieuenctid mwyaf arwyddocaol yn y Gadeirlan. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 27 o aelodau, yn fechgyn a merched, ynghyd â 10 arall ar brawf. O dan gyfarwyddyd Dr Emma Gibbins mae hwn wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ar ôl i'r pandemig leihau'r niferoedd.

Mae recriwtio yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf wedi gweld adnewyddu sylweddol gyda chantorion newydd yn ymuno, er ei bod yn anoddach recriwtio bechgyn na merched. Mae tua 4% o'r rhai sy'n cael clyweliadau yn dod yn aelodau llawn o'r côr. Mae'r oedolion i gyd yn wirfoddol ac yn cynnwys cyn-aelodau, merched a bechgyn, unwaith y bydd eu lleisiau wedi newid. Mae menywod yn canu yn y llinell alto. Mae gwarchodwyr yn dod o blith y clercod lleyg a'r rhieni – pob un wedi'i recriwtio'n ddiogel ac wedi bodloni gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.



CATHEDRAL MUSIC TRUST

RSCM
THE ROYAL SCHOOL OF CHURCH MUSIC

CRONFA ARCHESGOB CYMRU ER BUDD PLANT
AWFC
THE ARCHBISHOP OF WALES FUND FOR CHILDREN

Mae dwy gronfa i gynorthwyo aelodau'r côr gyda hyfforddiant cerddorol: y Gronfa Addysg a Chyfeillion Côr Cadeirlan Casnewydd.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o gantorion wedi manteisio ar fynychu'r Cwrs RSCM preswyl yng Nghaerfaddon ac wedi magu hyder o ganlyniad. Mae'r Gadeirlan wedi cyfrannu at y costau drwy'r ddwy gronfa. Rydym hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan Gronfa Archesgob Cymru i Blant ac oddi wrth Cathedral Music Trust, ynghyd â chyrff cyllid grant eraill.

Mae'r côr yn mwynhau gweithgareddau cyfoethogi amrywiol, gan gynnwys diodydd haf a hufen iâ yn y Deondy ar ôl gwasanaeth olaf blwyddyn y côr. Mae partïon crempog aelodau'r côr a theithiau cerdded noddedig, un dros Bont Hafren yn ddiweddar, er budd elusen i blant, yn ychwanegu at eu gweithgareddau allgyrsiol. Gweithiodd aelodau'r côr ac aelodau eraill o gymuned y Gadeirlan gydag artist lleol i wneud Posada Casnewydd, a arddangoswyd yn y Gadeirlan yn ystod yr Adfent.











# Adeilad y Gadeirlan

Mae angen rhywfaint o waith atgyweirio sylweddol ar adeilad y Gadeirlan, a amlygwyd gan yr archwiliad, sy'n cael ei gynnal pob pum mlynedd, yn 2021. Penodwyd pensaer newydd i wneud hyn ac mae wedi llunio rhaglenni ar gyfer gwaith atgyweirio, ac mae rhai ohonynt eisoes wedi'u cwblhau.

Y rhai dwysaf eu hangen yw:

- Atgyweiriadau sylweddol i'r tŵr. Mae'r rhain wedi'u cwmpasu ac mae'r costau'n cael eu paratoi.
- Adnewyddu'r goleuadau mewnol – mae tendrau wedi dod i law ac mae'r rhain yn cael eu hasesu, gyda'r cyllid yn cael ei geisio.
- Gosod goleuadau allanol – yn cael eu cwmpasu gyda'r nod o sicrhau bod y rhain yn eu lle erbyn gaeaf 2024.

Yn fewnol, mae'r Gadeirlan wedi ei hail-drefnu, gyda'r holl seddau wedi eu symud ers 2018. Gosodwyd allor newydd ym mhen corff y Gadeirlan. Gwnaed yn bwrpasol ar gyfer y Gadeirlan, gan adlewyrchu'r bwâu crwn, ac fe'i gwnaed gan Dovetailors yn Leeds. Mae angen cwblhau'r cynllun gyda darllenfa, bwrdd allor, dodrefn y cysegr a seddau'r côr newydd. Bydd y canon newydd yn gallu cyfrannu at y prosiect hwn. Mae gan y Gadeirlan gyfarpar llawn ar gyfer ffrydio byw a chyfryngau clyweledol. Mae'n ofod sy'n addas ar gyfer defnydd creadigol a dychmygus.









# Prosiectau Gofal Cymdeithasol

Mae prosiectau gofal cymdeithasol wedi dechrau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan y Canon dros Genhadaeth yn gweithio gydag aelodau'r gynulleidfa. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau pantri gydag ysgolion lleol i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn y ddinas. Mae gan lawer o'r eglwysi yng Nghasnewydd gynlluniau tebyg.

Mae’r Gadeirlan yn pryderu’n fawr am faterion amgylcheddol ac mae ganddi brosiect mynwent eglwys fyw, bywyd gwyllt ac ardaloedd o ddad-ddofi tir, gan gynnwys gwesty trychfilod bach a thai draenogod. Mae wedi ennill gwobr Efydd Eco-Eglwys ac mae'n gweithio tuag at ennill un Arian.


Am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Gadeirlan wedi bod yn gyfrifol am stondin adeg Balchder Casnewydd.






## Ysgolion

Trwy'r Cyfarwyddwr Cerdd ac aelodau'r gynulleidfa, mae'r Gadeirlan yn gweithio gyda nifer o ysgolion. Yn ddiweddar ailsefydlwyd perthnasoedd gydag Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw, gyda chytundeb yr Ardal Weinidogaeth. Mae ysgolion eraill, gan gynnwys tîm addysg yr esgobaeth, yn ymweld â'r Gadeirlan. Mae'r Gadeirlan yn cynnal gwasanaethau blynyddol ar gyfer y rhai sy'n gadael blwyddyn 6 ar gyfer ysgolion yr esgobaeth a chynhadledd flynyddol ar gyfer Penaethiaid Ysgolion.






# Gweinidogaeth Leyg a Bywyd Cynulleidfaol

Yn ganolog i’r Gadeirlan mae cymuned go iawn a nod sawl grŵp yw datblygu a meithrin cymrodoriaeth – Undeb y Mamau, grŵp cymrodoriaeth, boreau coffi rheolaidd. Mae'r siop yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae grŵp Ffrindiau ar gael hefyd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weinidogion lleyg na thimau bugeiliol achrededig trwyddedig ffurfiol. Mae yna Gynorthwywyr Cymun Bendigaid sy'n cynorthwyo wrth weinyddu’r Cymun, ond nid Cymun yn y cartref. Mae'r gynulleidfa yn gofalu am ei gilydd yn dda, ond mae hyn yn anffurfiol. Nid oes grwpiau cartref na grwpiau astudio rheolaidd.

Trefnir grwpiau a sgyrsiau ar gyfer y Grawys ac achlysuron eraill. Yn y flwyddyn ddiwethaf paratowyd 10 o bobl ar gyfer Conffyrmasiwn - blwyddyn 6/7 hyd at oed ymddeol. Yng Nghymru ceir mynediad i’r cymun drwy fedydd. Mae plant sy'n newydd i'r Gadeirlan, gan gynnwys aelodau’r côr, yn cael eu paratoi i dderbyn y cymun ar oedran y mae eu rhieni'n teimlo sy'n briodol iddyn nhw, ond yn unol â pholisi Mainc Esgobion Cymru, nid oes seremoni dderbyn ffurfiol.



Diwrnod Cadarnhau



30 Somethings gwibdaith

Rhai aelodau o Undeb y Mamau





Bore Coffi

# Gadeirlan glychau

Mae gan y Gadeirlan ganiad 12 cloch hyfryd, un o ddim ond dau yng Nghymru, ac mae'n boblogaidd ymhlith clochyddion ar ymweliad. Mewn gwirionedd, mae 14 o glychau i ganiatáu caniad ysgafnach gyda 10 cloch. Mae urdd weithgar o glochyddion ac mae'n dŵr hyfforddi.





Cloch Newydd 2023





# Amser cyffrous i ymuno â'r Gadeirlan

Er bod llawer iawn wedi'i gyflawni yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae llawer i'w wneud o hyd – yn strwythurol, cenhadol, bugeiliol, cynulleidfaol ac o ran llywodraethu. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'r Gadeirlan a byddai'n addas i unrhyw un sy'n cael ei gyffroi gan y cyfleoedd i lunio a rhannu ei chenhadaeth a'i gweinidogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Gadeirlan: a ffrydiau'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwefan: www.newportcathedral.org.uk

X/Twitter: @newportcath

Facebook: www.facebook.com/newportcathedral

Gwasanaeth Sylfaen Frenhinol 2023: https://youtu.be/uUZiTjODgY4?feature=shared




















# Diben yr Eglwys yng Nghymru

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn rhan o'r Cymundeb Anglicanaidd byd-eang. “Ei galwedigaeth yw meithrin gwŷr a benywod yn ffydd Iesu Grist a’u cynorthwyo i dyfu yng nghymdeithas yr Ysbryd Glân, fel y gellir cyhoeddi’r newyddion da am ras Duw yn eglur yn y byd ac y gellir anrhydeddu a hyrwyddo Teyrnas Dduw” (o Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru).

Dyma ein hethos ac mae'n rhoi arweiniad ar gyfer popeth y mae'r Gadeirlan yn bwriadu ei wneud.



YR EGLWYS YNG NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

# Cartref

Mae 52 Ffordd Oakfield yn dŷ pâr a adeiladwyd ar ddechrau'r 20fed ganrif. Mae'r tŷ mewn ardal breswyl sefydledig yng ngogledd-orllewin y ddinas. Mae o fewn pellter cerdded i'r Gadeirlan, 0.7 milltir.

Mae'r llety'n cynnwys, ar y llawr gwaelod, 4 ystafell dderbyn (un wedi'i throi'n stydi gyda silffoedd), cegin gyda lle amlbwrpas, ystafell gotiau llawr gwaelod, ac i fyny'r grisiau, 4 ystafell wely, ystafell ymolchi a chawod newydd a landin fawr gyda chwpwrdd crasu.

Wedi'i leoli ar y ffordd gyferbyn, mae lle parcio oddi ar y ffordd o flaen garejys dwbl a sengl ar wahân.

Y tu allan tua'r blaen mae gardd fechan gyda llwyni, ac i'r cefn mae ardal fach, balmantog y tu allan i ddrysau Ffrengig yr ystafell dderbyn gefn a grisiau yn arwain at ardd lawnt wastad gyda border blodau.

Preswylir yma heb Dâl Cymunedol nac Ardrethi Dŵr. Mae'r preswylydd yn talu am ei wres a'i olau ei hun, ond yn yr Eglwys yng Nghymru, mae'r Gadeirlan yn ad-dalu 25% o'r costau hyn (system wahanol i Eglwys Loegr). Mae costau ffôn, rhyngrwyd a chostau gwaith yn cael eu had-dalu gan y Gadeirlan.



# Manyleb y Person

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus

| Gofynion | Hanfodol (H) Dymunol (D) | Mesurwyd ar sail: Ff – Ffurflen Gais C – Cyfweliad G – Geirdaon |
|---|---|---|
| **Cymwysterau** | | |
| Cymhwyster diwinyddol – yn ddelfrydol ar lefel gradd neu uwch. | H<br>D | Ff |
| Wedi cwblhau swydd lefel perigloriaeth am 5 mlynedd o leiaf. | D | Ff |
| Offeiriad Anglicanaidd, y gellir ei drwyddedu gan yr esgob. | H | Ff |
| **Sgiliau** | | |
| Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i uniaethu ag ystod amrywiol o bobl ac oedrannau yn naturiol. | H | Ff; C; G |
| Gweinyddwr cymwys, sy'n gyfarwydd â phecynnau TG Office, gyda llygad craff am osod a fformatio dogfennau. | H | Ff; C |
| Y gallu i gyfathrebu yn glir ac yn syml. | H | Ff, C |
| Sgiliau tîm da a'r gallu i weithio gyda gwirfoddolwyr, a’u galluogi a'u paratoi ar gyfer gweinidogaeth. | H | Ff; C; G |
| Yn hyderus i weithio'n annibynnol a mentro, yn ogystal â gweithio ar y cyd. | H | Ff; C; G |
| Ymagwedd hyblyg tuag at weithio ac yn gallu rheoli amser yn unol â hynny. Byw bywyd cytbwys a chymryd amser i ffwrdd. | H | Ff; C; G |
| Litwrgïwr creadigol, yn gallu gweithio gyda chyd-destunau traddodiadol ac arloesol. | H | Ff; C |

# Manyleb y Person

**Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus**

| Gofynion | Hanfodol (H) Dymunol (D) | Mesurwyd ar sail: Ff – Ffurflen Gais C – Cyfweliad G – Geirdaon |
|---|---|---|
| Gallu canu mewn tiwn a dal traw wrth ganu gyda chôr y Gadeirlan. | H | Ff; C |
| Yn fyw yn weddigar ac yn ysbrydol. | H | Ff; C |
| Pregethwr dychmygus a dymunol – yn gallu uniaethu ag amrywiaeth eang o sefyllfaoedd a phobl. | D | Ff; C |
| Llygad craff am fanylion. | H | C; G |
| **Profiad** | | |
| Datblygu bywyd a ffydd gynulleidfaol yn enwedig ymhlith oedolion a phlant iau. | H | Ff; C |
| Ymdrin â'r cyhoedd a gwirfoddolwyr. | H | Ff; C |
| Creu litwrgïau ar gyfer gwahanol achlysuron – sefydledig a chreadigol. | H | Ff; C |
| Gweithio gyda cherddorion a pharchu eu barn broffesiynol | H | Ff; C |
| Arloesi, cyrraedd y rhai ar yr ymylon neu heb gysylltiad â chrefyddau cyfundrefnol, bywyd yr eglwys ac yn anghyfarwydd â diwylliant eglwys. | H | Ff; C; G |
| **Gwybodaeth** | | |
| Deall gweinidogaeth arbennig cadeirlan. | D | Ff; C |

# Manyleb y Person

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus

| Gofynion | Hanfodol (H)<br>Dymunol (D) | Mesurwyd ar sail:<br>Ff – Ffurflen Gais<br>C – Cyfweliad<br>G – Geirdaon |
|---|---|---|
| Deall diwylliant Cymru neu â'r awydd i ddysgu. | D<br>H | Ff; C |
| Egwyddorion litwrgi a'i ddefnydd creadigol, yn gyfarwydd â litwrgi'r Eglwys yng Nghymru neu a'r awydd i ddysgu. | D<br>H | Ff; C |
| Gwybodaeth eang o gerddoriaeth eglwysig. | H | Ff; C |
| Hanes hyfforddiant diogelu cyfredol ac ymrwymiad i gymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl yr angen. | H | Ff; C |
| **Agweddau** | | |
| Ymrwymiad i ethos y Gadeirlan a gwerthoedd agored a chynhwysol. | H | Ff; C |
| Hyblyg ac addasadwy, yn enwedig ar adegau dan bwysau – yn barod i fod yn ymarferol a galluogi eraill i arwain. | H | Ff; C; G |
| Cydweithredol ac ar y cyd ag eraill. | H | Ff; C |
| Arfer doethineb a bod yn sensitif i eraill. | H | Ff; C; G |
| Bod yn hunanysgogol ac yn rhagweithiol, bod yn agored ac yn egnïol wrth ymdrin â chyfrifoldebau. | H | Ff; C; G |
| Cymryd rhan ym mywyd addoli'r Gadeirlan, gan gynnwys y gwasanaethau gweddïo dyddiol. | H | Ff; C |
| Yn talu sylw i'w anghenion ysbrydol ac emosiynol ei hun, cymryd amser i ffwrdd a chydnabod bod pobl eraill angen hwn hefyd. | H | Ff; C |

# Amodau Gwasanaeth

Telerau Gwasanaeth yr Eglwys yng Nghymru. Gwyliau blynyddol i'w trefnu gyda thîm clerigol y Gadeirlan, fel bod o leiaf un clerigwr preswyl yn bresennol yn y Gadeirlan.

Cyflog Canon Preswyl yn yr Eglwys yng Nghymru – £32,800 (2024).

Ad-delir treuliau gan yr Eglwys Gadeiriol pan gyflwynir ceisiadau a derbynebau.

Diwrnod clir i ffwrdd bob wythnos – yn cael ei hysbysebu a'i warchod. Ar adegau, efallai y bydd angen newid hwn, ond disgwylir y bydd diwrnod amgen yn cael ei gymryd.

Mae angen cliriad uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thanysgrifiad i wasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

# Sut i Wneud Cais

Mae'r Deon yn fodlon i ymgeiswyr sydd â diddordeb gysylltu ag ef drwy e-bost yn y lle cyntaf gyda naill ai cwestiynau neu i drefnu amser i drafod y swydd hon. Ei gyfeiriad e-bost yw ianblack@churchinwales.org.uk.

Dylid gwneud ceisiadau drwy gyflwyno ffurflen gais yr Eglwys yng Nghymru ynghyd â'r datganiadau cyfrinachol. Sylwch na fydd CV yn cael ei dderbyn fel ffurflen gais. Dylid anfon ceisiadau wedi'u cwblhau drwy e-bost at deanofnewport@churchinwales.org.uk erbyn 12pm Ddydd Llun 8 Ebrill 2024.

Hefyd, dylai ymgeiswyr gynnwys PDFs yn yr e-bost o ddwy drefn gwasanaeth a baratowyd ganddynt yn ystod 2023:
·un ar gyfer prif Gymun Bendigaid arferol ac
·un arall yn arddangos eu creadigrwydd ar gyfer achlysur gwahanol.
Dylech gynnwys esboniad byr o'r cyd-destun ar gyfer pob gwasanaeth.

Bydd cyfweliadau, gan gynnwys prawf llais, ar ddydd Mercher 1 Mai 2024 gyda sgyrsiau anffurfiol ac ymweliadau y diwrnod cynt – dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod ar gael ar y ddau ddiwrnod.

Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd, os ydych ar y rhestr fer neu ddim. Bydd mwy o wybodaeth am y broses yn cael ei hanfon at ymgeiswyr ar y rhestr fer. Bydd y broses yn cynnwys cyfweliad ffurfiol yn ogystal â'r cyfle i gael sgyrsiau mwy anffurfiol gyda chynrychiolwyr cymuned y Gadeirlan.

# Casnewydd

Dinas yn Ne Cymru yw Casnewydd, yn agos at y ffin â Lloegr. Mae'n agos iawn at gefn gwlad eithriadol ac mae ar ochr ogleddol Môr Hafren. Mae wedi cael adfywiad sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi profi newidiadau yn ei sylfaen ddiwydiannol. Mae'n ddinas amlddiwylliannol gydag ardaloedd o amddifadedd sylweddol ynghyd â chymunedau mwy llewyrchus.

Mae amrywiaeth o ysgolion yng Nghasnewydd a'r ardal ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae addysg yn fater datganoledig yng Nghymru ac mae cymwysterau a'r cwricwlwm yn dilyn cynlluniau Llywodraeth Cymru.

Mae ganddi gysylltiadau cymudo rhagorol, ffyrdd a rheilffyrdd. Mae'r M4 yn agos gyda sawl cyffordd yn cysylltu â'r ddinas. Mae Llundain tua 1 awr 40 munud ar y trên; Caerdydd tua 20 munud ar y trên.

Mae band eang ffibr mewn sawl rhan o'r ddinas, gan gynnwys o amgylch y Gadeirlan.

Nid yw Casnewydd yn rhan o Gymru lle mae'r Gymraeg yn gryf, ond mae'r Gymraeg yn amlwg ym maes addysg ac mae'r Gymraeg yn rhan o addoliad y Gadeirlan. Mae siaradwyr Cymraeg yn y gynulleidfa i helpu gyda hyn.

Mae llawer o gyfleoedd cyflogaeth yng Nghasnewydd, Caerdydd a Bryste, i gyd o fewn cyrraedd. Mae'n bosib cymudo i Lundain ac yn sicr mae cyfle i weithio'n hybrid.

I gael rhagor o wybodaeth: https://www.casnewydd.gov.uk/



NEWPORT GWENT DRAGONS







# Esgobaeth Mynwy

Mae Esgobaeth Mynwy yn cael ei henw o dref sirol Sir Fynwy, sy'n gorwedd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. I bob pwrpas mae'n cwmpasu'r hen sir, sef Gwent, sydd bellach yn ymgorffori Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent a rhannau o Fwrdeistrefi Sirol Caerffili, yn ogystal â rhannau dwyreiniol Caerdydd. Mae plwyfi wedi cael eu diwygio i ffurfio Ardaloedd Gweinidogaeth, sy'n ffurfio un plwyf yn gyfreithiol. Mae'r Gadeirlan y tu allan i'r rhain. I gael rhagor o wybodaeth:

https://monmouth.churchinwales.org.uk/cy/

# Yr Eglwys yng Nghymru

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn rhan ymreolaethol o'r Cymundeb Anglicanaidd. Fe'i datgysylltwyd oddi wrth Eglwys Loegr ym 1920. Mae ganddi le yng nghalon ddinesig y wlad o hyd.

I gael rhagor o wybodaeth: www.churchinwales.org.uk/cy/

